**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 10 RHAGFYR 2025 YN CP2 a thrwy Teams**

**Yn bresennol:** Karen Jones (Cadeirydd); Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd); Frank Cuthbert; Bethan Price; Ginger Wiegand; Dianne Bevan; Frances Duffy; Andrew Blackmore.

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd); Rhydian Fitter (Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd); Michal Harris-Edwards (Swyddog Cymorth Tîm)

**Ymddiheuriadau:**

**Amser Dechrau: 9:30**
**Amser Gorffen: 11:00**

**1. Datganiadau Buddiannau**

1.1. Dim

**2. Briff gan y Cadeirydd**

2.1. Soniodd y Cadeirydd am fynychu'r fforwm Cadeiryddion Cyhoeddus, gan **nodi** bod y trefniadau sefydlu ar gyfer gweinyddiaeth newydd y Senedd wedi dechrau. **Nodwyd** y bydd hyn ar yr agenda ar gyfer mis Chwefror.

2.2. Dywedodd y Cadeirydd fod y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cadeiryddion ac aelodau'r bwrdd wedi'i chynyddu o 1 Ionawr.

2.3. Soniodd y Cadeirydd am bartneriaeth gymdeithasol a goblygiadau hyn i'r Bwrdd. Bydd hyn yn rhan o hunanasesiad a gynhelir yn gynnar y flwyddyn nesaf.

2.4. Dywedodd y Cadeirydd fod rôl yr Uwch Reolwr Llywodraethu a Chyllid wedi cael ei llenwi ac y bydd yn cychwyn ar ddechrau mis Chwefror.

2.5. Dywedodd y Cadeirydd fod y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) wedi cael gwahoddiad i roi tystiolaeth i Bwyllgor y Senedd ynglŷn â'r bil adalw lle trafodwyd ymestyn cylch gwaith y BRhE i ymdrin â pholau adalw.

2.6. Dywedodd y Cadeirydd fod yr estyniadau i gyfnodau FC, DB ac MI yn

cael eu hystyried. Mae 3 swydd wag ar gyfer Comisiynwyr ar hyn o bryd a bydd y rolau'n cael eu hysbysebu yr wythnos nesaf.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Y Gofrestr Risgiau**

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Rhagfyr gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Nodwyd** y cynhaliwyd gweithdy ym mis Hydref a arweiniodd at 5 thema risg ac 11 risg allweddol.

4.3. Trafodwyd risg 1 a dileu ail hanner y frawddeg i adlewyrchu'r ffaith y gallai mwy na llinellau amser cywasgedig yn unig effeithio ar y Comisiwn.

4.4. Trafodwyd risg 2 a sut mae dulliau'r Comisiwn o gyfathrebu â phobl i'w galluogi i ddeall ei swyddogaethau'n well yn effeithio ar ei enw da. Trafodwyd bod hyn yn ddwy risg i adlewyrchu'r ffaith ei bod yn her gyfreithiol yn ogystal ag enw da.

4.5. Trafodwyd y ffaith bod y Comisiwn yn gwneud nifer o benderfyniadau gwleidyddol sensitif ac amlwg iawn.

4.6. Trafodwyd risg 3. **Nodwyd** y dylai'r strwythur adlewyrchu'r ffaith bod y sefydliad hwn yn fach, ond sicrhau bod pawb yn hyblyg a bod hyfforddiant da ar waith.

4.7. Trafodwyd risg 4 a'r trosiant uchel o Gomisiynwyr y mae eu cyfnodau'n dod i ben. **Nodwyd** y gall cyfnodau Comisiynwyr a benodwyd trwy gystadleuaeth deg ac agored gael eu hymestyn heb gais. **Cytunwyd** i ddileu'r risg hon.

4.8. Trafodwyd y risg ynglŷn â phenodi Cadeirydd newydd y BRhE. **Nodwyd** bod is-gadeirydd a bod 3 chyfarfod yn unig rhwng nawr ac etholiad y Senedd. **Cytunwyd** i ddileu'r risg hon.

4.9. Trafodwyd risg 6 a'r nifer fach o staff sy'n gysylltiedig. **Cytunwyd** y bydd hyn yn parhau i fod yn risg nes i'r sefydliad dyfu.

4.10. Trafodwyd risg 7 a chymhlethdod y swyddogaethau a gyflawnir a'u cyd-ddibyniaeth. **Nodwyd** y dylai Comisiynwyr a staff gael trosolwg o'r holl waith sy'n cael ei wneud.

4.11. Trafodwyd risg 8 a chydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus mewn perthynas â'r Platfform. Trafodwyd ehangu hyn i weddill y Comisiwn a Safonau'r Gymraeg a'i ystyried yn ymwybyddiaeth o hyfforddiant yn hytrach na risg lefel uchel.

4.12. Trafodwyd risg 9, sef nad yw'r platfform yn bodloni disgwyliadau. Awgrymwyd diwygio'r geiriad i adlewyrchu'r ffaith bod risg cydymffurfio o ganlyniad i ddyletswyddau cyfreithiol.

4.13. Trafodwyd risg 10 a'r cymorth TG sydd ar waith ar hyn o bryd gyda Chymwysterau Cymru. **Cytunwyd** i gadw'r risg hon, gan **nodi** bod camau lliniarol yn cael eu datblygu.

4.14. Trafodwyd risg 11 ynglŷn ag amlygrwydd y gwaith sy'n cael ei wneud a'r potensial ar gyfer seiberymosodiadau. **Nodwyd** y bydd y geiriad yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at y ffaith bod y risg hon yn berthnasol i'r Comisiwn cyfan ac nid yn benodol i etholiadau yn unig. Trafodwyd risg ynglŷn â staff newydd a'r angen i sicrhau bod hyfforddiant perthnasol ar waith.

4.15. **GWEITHREDU**: SW i fapio camau lliniarol sydd eisoes ar waith ar gyfer pob risg, i'w cyflwyno i gyfarfod mis Chwefror.

## 5. Arolygon

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Rhagfyr 2025 gan y Pennaeth Arolygon ac fe'i **nodwyd**.

5.2. **Nodwyd** y bydd Llandŵ yn cael ei chadw gyda'i ffiniau presennol o ganlyniad i wrthwynebiad. **Nodwyd** y bydd ganddi amrywiant 28% o'r cyfartaledd sirol argymelledig.

5.3. **Nodwyd** y bu newidiadau i enwau lleoedd yn arolwg Sir Gaerfyrddin.

5.4. **Nodwyd** bod yr unig newid i'r opsiynau o gynigion drafft Sir Gaerfyrddin yn deillio o wrthwynebiad i gyfuno Llandeilo â Llanfihangel Aberbythych. Yr argymhelliad terfynol yw cyfuno Llanfihangel Aberbythych â Gors-las gan nad yw hyn yn rhannu'r gymuned.

5.5. **Nodwyd** nad oedd y Comisiwn wedi derbyn cynrychiolaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

5.6. **Cytunwyd** ar y newidiadau.

## 6. Cydnabyddiaeth Ariannol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Rhagfyr gan yr Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd.

6.2. **Nodwyd** bod y Pwyllgor wedi cyfarfod ar 3 Rhagfyr i drafod yr adborth ymgynghori ynglŷn â'r cynnydd 6.4% sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE).

6.3. **Nodwyd** bod y Pwyllgor yn argymell cynnal y cysylltiad ag ASHE, ond bydd yn adolygu hyn y flwyddyn nesaf ac yn edrych ar fynegeion eraill.

6.4. **Nodwyd** bod y Pwyllgor wedi penderfynu peidio â newid y dull gan na ymgynghorwyd arno.

6.5. **Cytunwyd** i gadw'r cynnydd, gan **nodi** bod ymrwymiad i adolygu'r mynegeion a ddefnyddir.

6.6. **Nodwyd** na fydd yr adroddiad yn cael ei ryddhau cyn y Nadolig ond y caiff ei gyhoeddi ym mis Ionawr.

## 7. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE)

7.1. **Nodwyd** bod un o'r cyflenwyr System Rheoli Etholiadol (EMS) wedi darparu testun i'w brofi.

7.2. **Cytunwyd** i wahodd Arweinydd y Prosiect i un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol i roi trosolwg llawn o'r Platfform.

7.3. **Nodwyd** bod proses sicrwydd wedi bod yn mynd rhagddi i sicrhau cydlyniad etholiadau a chymorth i swyddogion canlyniadau. **Nodwyd** bod sicrwydd gan y Post Brenhinol a fydd yn mynychu cyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror.

7.4. **Nodwyd** bod y rôl Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cael ei diddymu, ond y gallai rhai is-etholiadau gael eu cynnal o hyd os bydd unrhyw swyddi gwag.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb 2025/26

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Rhagfyr gan y Prif Weithredwr.

8.2. **Nodwyd**, ar ôl cyfarfod â'r Is-adran Noddi, y bydd y Comisiwn yn ildio £200,000 yn ôl.

8.3. **Cytunwyd** ar y gyllideb.

## 9. Calendr Digwyddiadau

9.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 10. Unrhyw Fater Arall – Fframwaith Cyfathrebu

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 4 Rhagfyr gan yr Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

10.2. Trafodwyd yr amcanion cydraddoldeb a ph'un a yw'r cynllun yn cyrraedd grwpiau â gwahanol nodweddion.

10.3. Trafodwyd diwygio'r iaith i adlewyrchu'r ffaith nad oes sicrwydd o sylw yn y cyfryngau.

10.4. Trafodwyd trawsweithio, gan gynnwys adlewyrchu hyn yn y fframwaith a datblygu cynlluniau sy'n gallu gweithio i bob swyddogaeth.

10.5. **GWEITHREDU**: RF i wneud y newidiadau angenrheidiol a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 28 Ionawr 2026**